# Rheoli’r gwaith o gasglu silod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r gwaith o gasglu silod i gynorthwyo cynhyrchu cregynbysgod. (Diffinnir "Silod" fel cregynbysgod ifanc a had cregynbysgod).

Mae'r safon hon yn cynnwys y gallu i drefnu'r gweithgareddau canlynol:

- paratoi casglwyr silod
- defnyddio casglwyr silod yn y môr
- monitro'r gwath o gasglu silod
- adennill casglwyr silod
- trin a storio silod

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn rheoli'r gwaith o gasglu silod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle
2. trefnu'r adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r gweithgareddau a gynlluniwyd o gasglu silod
3. rheoli gweithgareddau casglu silod i gyflawni'r gofynion cynhyrchu a gynlluniwyd yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol
4. sicrhau bod lles silod yn cael ei gynnal wrth gasglu
5. monitro ac addasu gweithrediadau casglu silod i roi cyfrif am amrywiadau o'r cynhyrchu a gynlluniwyd
6. rheoli adennill a didoli silod hyfyw trwy roi gweithrediadau casglu a storio silod ar waith yn effeithiol
7. sicrhau bod lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch yn cael eu cynnal
8. cadw cofnodion casglu silod i fodloni'r gofynion cyfreithiol, yn unol â gweithdrefnau'r safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle ar gyfer iechyd a diogelwch sydd yn gysylltiedig â chasglu silod cregynbysgod
2. technegau casglu silod sydd yn berthnasol i'r rhywogaethau o gregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
3. sut i adnabod cyfnodau cylch bywyd y cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
4. sut i adnabod silod cregynbysgod targed a rhai nad ydynt yn rhai targed, organebau llygru a rhywogaethau o ysglyfaethwyr
5. sut a phryd i sefydlu gweithgareddau casglu silod er mwyn rheoli a chynyddu casgladau silod
6. sut i storio a chludo silod cregynbysgod
7. y dulliau a ddefnyddir i gyfyngu ar weithredoedd ysglyfaethwyr wrth gasglu silod
8. technegau trin silod sydd yn cyfyngu'r straen a achosir i silod cregynbysgod
9. y dulliau gwahanol y gellir eu defnyddio i reoli'r gwaith o gasglu silod
10. yr amodau cyfreithiol ac amgylcheddol sydd yn cyfyngu'r detholiad o **safleoedd casglu**
11. gofynion adnoddau casglu silod yn ddiogel ac yn effeithiol
12. ffactorau sydd yn gallu effeithio ar gasglu silod
13. sut i bennu hyfywedd silod
14. gweithdrefnau'r safle ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch
15. y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau'r safle ar gyfer cadw cofnodion casglu silod

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn trefnu'r **gweithgareddau** canlynol:

1. paratoi casglwyr silod
2. defnyddio casglwyr silod yn y môr
3. monitro'r gwaith o gasglu silod
4. adennill casglwyr silod
5. trin a storio silod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn ystyried **amrywiadau** o gynhyrchu wedi ei gynllunio oherwydd:

1. newidiadau mewn amodau amgylcheddol
2. gweithredoedd ysglyfaethwyr
3. amrywiadau mewn gollyngiadau silod

## Geirfa

**safleoedd casglu** – ardaloedd yn y môr lle mae casglwyr silod wedi cael eu sefydlu

**silod hyfyw** – silod sydd yn debygol o oroesi mewn amgylchedd fferm bysgod

**cynhyrchu wedi ei gynllunio** – cynhyrchiant a ragwelir yn seiliedig ar ddata hanesyddol a phrofion

**adnoddau** – pobl, cyfarpar, storfa, cludiant

Rheoli'r gwaith o gasglu silod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Awst 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Awst 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu24 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | cregynbysgod; silod |